Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Flaenoriaethu Buddsoddi Cyfalaf – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4874A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Cipolwg o'r archwiliad 4

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 6

Adroddiad manwl

Cynllunio buddsoddi cyfalaf 7

Proses blaenoriaethu cyfalaf 9

Llywodraethu a goruchwylio 11

Argymhellion 13

Atodiadau

Atodiad 1 – Meini prawf archwilio 14

Atodiad 2 – Dulliau archwilio 17

Atodiad 3 – Ymateb y rheolwyr 19

# Adroddiad cryno

## Cipolwg o'r archwiliad

### Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom fwrw golwg ar sut y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn blaenoriaethu ei wariant a buddsoddi cyfalaf i'w alluogi i gyflawni ei amcanion strategol. Yn benodol, fe wnaethom fwrw golwg ar asedau cyfalaf sy'n cynnwys yr ystâd tir ac eiddo, ac offer clinigol a digidol cost-uchel. Ni wnaethom asesu unrhyw benderfyniadau unigol ynglŷn â buddsoddi cyfalaf. Ceir rhagor o wybodaeth am ein meini prawf a'n dulliau archwilio yn **Atodiad 1 a 2.**

### Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae buddsoddi cyfalaf gan y GIG[1] yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i redeg yn effeithlon a sicrhau bod adeiladau ac offer yn ddiogel i gleifion a staff. Mae asedau'n dibrisio, felly mae'n debygol y bydd peidio â buddsoddi ynddynt neu eu cynnal a'u cadw mewn modd amserol yn costio mwy yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae arian cyfalaf ar lefel Cymru gyfan yn gyfyngedig. Nid yw adnoddau ariannol blynyddol yn cyfateb i'r galw am arian cyfalaf ac fe'u hamsugnir i raddau helaeth gan brosiectau cyfalaf sy'n bodoli eisoes ac sy'n rhedeg dros nifer o flynyddoedd.

3 O fewn y cyd-destun hwn o ran adnoddau cyfyngedig, mae cyrff iechyd, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, yn gorfod rheoli pwysau lluosog megis galw sy'n cynyddu, cyflawni gwaith i drawsnewid gwasanaethau, cydnerthedd offer, capasiti digidol a rheoli ôl-groniad o waith cynnal a chadw sy'n cynyddu. Mae hyn yn golygu bod cadw seilwaith yn ddiogel i barhau i ddarparu gwasanaethau diogel heb beryglu ansawdd yn risg.

4 Mae'r cyd-destun ariannol ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn gryn her hefyd. Ers 2022, dan Fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod dan ymyrraeth wedi'i thargedu[2] ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. Dwyseir yr heriau ariannol gan heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â seilwaith presennol y Bwrdd Iechyd a'r adnoddau sydd ar gael iddo.

[1] Mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â buddsoddiadau mewn asedau megis adeiladau a seilwaith. Gall gynnwys adeiladu neu brynu asedau, megis offer meddygol, ond hefyd eu cynnal a'u cadw a'u gwella.

[2] O dan y Cyd-drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o leiaf ddwywaith y flwyddyn i drafod perfformiad pob corff iechyd. Ceir pum lefel uwchgyfeirio: trefniadau rheolaidd, maes sy'n achosi pryder, monitro manylach, ymyrraeth wedi'i thargedu, a mesurau arbennig. Ym mis Mawrth 2025, fe gadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod mewn ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio, perfformiad a deilliannau, a gwasanaethau bregus.

## Y casgliadau y daethom iddynt

5 **Ar y cyfan, canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd ddull sy'n effeithiol ac yn gwella ar gyfer blaenoriaethu cyfalaf a bod trefniadau goruchwylio da ar gyfer y cynllun buddsoddi cyfalaf a gymeradwywyd gan ei Fwrdd. Fodd bynnag, mae dichonoldeb y cynllun yn ansicr oherwydd maint y costau sydd wedi ôl-gronni a chyllid cyfalaf cyfyngedig:**

- mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Buddsoddi mewn Seilwaith datblygedig, sy'n cyd-fynd â'i amcanion strategol. Er bod y cynllun wedi'i gostio ar gyfer y tymor byr a hwy, mae adnoddau cyfalaf yn gyfyngedig ac nid ydynt yn ateb y galw ar gyfer costau'r ôl-groniad sylweddol.
- mae gan y Bwrdd Iechyd adnoddau staffio angenrheidiol i ategu ei gynlluniau cyfalaf cyfredol ond mae'n cydnabod y gallai darparu adnoddau ddod yn broblem os cymeradwyir mwy o brosiectau mawr.
- mae gan y Bwrdd Iechyd ddull sy'n eglur ac yn gwella o adnabod a blaenoriaethu ei fuddsoddiadau cyfalaf, gyda gweithdrefnau wedi'u dogfennu'n glir.
- mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau llywodraethu a goruchwylio cadarn i ategu ei brosesau penderfynu ynglŷn chyfalaf a dull sefydledig o ddysgu gwersi o brosiectau cyfalaf.

## Yr hyn y gwnaethom ei argymell

6 Rydym wedi gwneud un argymhelliad ar gyfer gwella. Mae hwn yn ymwneud â'r angen i wasanaethau a grwpiau gofal clinigol sicrhau bod yr holl offer meddygol wedi'i gofnodi'n gywir yn y rhestr offer meddygol i osgoi bylchau mewn gwybodaeth.

## Ffeithiau a ffigyrau allweddol[3]

| | |
|---|---|
| **£42.7m** | Terfyn adnoddau cyfalaf y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024–25 |
| **36.9%** | Cynnydd yn y dyraniad cyfalaf yn ôl disgresiwn o £7.3 miliwn yn 2023-24 i £10 miliwn yn 2025-26 |
| **£255.5m** | Ôl-groniad ystadegau ym mis Ebrill 2025 |
| **£15 – £18m** | Ôl-groniad digidol ym mis Ebrill 2025 |
| **£26.2m** | Ôl-groniad amnewid dyfeisiau meddygol ym mis Ebrill 2025 |

[3] Ffigyrau fel a nodwyd yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024-25, 2025-26 a'r Adroddiad Diweddaru ar Lywodraethu Cyfalaf a gafodd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio ym mis Ebrill 2025.

# Adroddiad manwl

## Cynllunio buddsoddi cyfalaf

7 Fe wnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull strategol wedi'i ddiffinio'n glir sydd o gymorth i gyflawni ei raglen gyfalaf wedi'i blaenoriaethu. Fe wnaethom ystyried yn benodol a oes ganddo'r canlynol:

- cynllun buddsoddi cyfalaf datblygedig i reoli buddsoddiad yn ei ystâd ac offer o werth uchel; ac
- adnoddau staffio angenrheidiol i roi cymorth i ddatblygu a chyflawni ei gynllun buddsoddi cyfalaf.

8 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Buddsoddi mewn Seilwaith datblygedig, sy'n cyd-fynd â'i amcanion strategol. Er bod y cynllun wedi'i gostio ar gyfer y tymor byr a hwy, mae adnoddau cyfalaf yn gyfyngedig ac nid ydynt yn ateb y galw ar gyfer costau ôl-groniad sylweddol y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddigon o adnoddau i reoli ei gynlluniau cyfalaf cyfredol ond mae'n cydnabod y gall darparu adnoddau ddod yn broblem os cymeradwyir mwy o brosiectau mawr**.

9 Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Buddsoddi mewn Seilwaith (y Cynllun) datblygedig, sy'n amlinellu ei flaenoriaethau buddsoddi cyfalaf dros y tymor byr, canolig a hir. Mae Cynllun 2024-27, a gadarnhawyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2024, yn cynnwys prosiectau buddsoddi ar gyfer ystadau, digidol ac offer. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r uchelgeisiau a nodir yn strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach[4], mewn modd priodol, ac fe'i hadolygir yn flynyddol i sicrhau bod buddsoddi cyfalaf arfaethedig o gymorth i gyflawni Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Mae Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith 2024-27 yn bennaf o gymorth i gyflawni'r amcan cynllunio blynyddol[5] sy'n ymwneud â'r cynllun ystadau, ond mae hefyd o gymorth i gyflawni'r cynllun strategol digidol, y cynllun gwasanaethau clinigol, a mentrau iechyd y boblogaeth.

10 Goleuir datblygiad y Cynllun gan wybodaeth gynhwysfawr, megis adroddiadau ar gyflyrau asedau, cofrestrau risgiau, arolygon mewnol, a data ar ôl-groniadau. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd wybodaeth dda i helpu i asesu gofynion ac anghenion o ran buddsoddi cyfalaf. Ar ben hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cofrestr asedau sefydlog ar gyfer yr holl asedau a brynwyd trwy gronfeydd cyfalaf[6]. Mae gweithdrefn buddsoddi cyfalaf gyfoes y Bwrdd Iechyd yn nodi'n glir y dylai pob cyfarwyddiaeth neu adran gynnal cofrestr asedau gyfoes ac yn nodi sut i ychwanegu asedau at y gofrestr asedau sefydlog. Mae'r tîm peirianneg glinigol yn y Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal rhestr o offer meddygol at ddibenion cynnal a chadw. Fodd bynnag, dywedodd y Bwrdd Iechyd y gall gwasanaethau weithiau

[4] Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei strategaeth hirdymor yn ystod 2025.

[5] Amcanion cynllunio 6, 8, 9 a 10 sy'n ymwneud â'r cynllun gwasanaethau clinigol, y cynllun ystadau, y cynllun strategol digidol ac iechyd y boblogaeth yn y drefn honno.

[6] Dim ond asedau â phris prynu o £5,000 neu fwy fydd yn cael eu dosbarthu fel rhai cyfalaf a'u cofnodi yn y gofrestr asedau sefydlog.

brynu offer, er enghraifft os yw'n cael cyllid ychwanegol, nad yw wastad yn cael ei adlewyrchu yn y rhestr offer meddygol. Mae'n bwysig bod yr holl offer yn cael ei gynnal a'i gadw am resymau statudol a diogelwch yn ogystal ag er mwyn parhad busnes (**Argymhelliad 1**).

11 Mae gweithdrefn buddsoddi cyfalaf gyfoes y Bwrdd Iechyd yn datgan yn eglur y dylai pob cyfarwyddiaeth neu adran gynnal cofrestr asedau gyfoes ac mae'n nodi sut i ychwanegu asedau at y gofrestr asedau sefydlog. Fodd bynnag, dywedodd y Bwrdd Iechyd y gall gwasanaethau weithiau brynu offer, er enghraifft os yw'n cael cyllid ychwanegol, nad yw wastad yn cael ei adlewyrchu yn y gofrestr asedau meddygol ac anfeddygol, a reolir gan y tîm peirianneg glinigol. Mae'n bwysig bod yr holl offer yn cael ei gynnal a'i gadw am resymau diogelwch a bod y Bwrdd Iechyd yn deall ei holl asedau. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl grwpiau gofal clinigol yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer prynu asedau meddygol ac anfeddygol, gan sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r tîm peirianneg glinigol, fel bod y gofrestr asedau meddygol ac anfeddygol yn cael ei diweddaru i atal bylchau mewn gwybodaeth (**Argymhelliad 1**).

12 I wneud defnydd effeithiol o adnoddau, lle y bo'n bosibl, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd yn bartner allweddol ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, ac mae ganddo rôl o ran cefnogi Strategaeth Gyfalaf 10 mlynedd Gorllewin Cymru. Mae cynlluniau'n cynnwys sefydlu hybiau cymunedol, a thai gofal ychwanegol a thai â chymorth yn y rhanbarth. Mae ganddo hefyd berthnasoedd gweithio clòs â byrddau iechyd eraill, er enghraifft gwaith i ddatblygu gwasanaeth patholeg rhanbarthol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chyfalaf, yn ystyried yr effaith ar bartneriaid pan fo'n gweithio ar ôl troed rhanbarthol.

13 Er bod gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Buddsoddi mewn Seilwaith datblygedig, nid yw dyraniadau adnoddau cyfalaf yn ateb y galw. Amcangyfrifir bod gan y Bwrdd Iechyd gyfanswm ôl-groniad o bron i £300 miliwn[7], ond £42.7 miliwn oedd ei derfyn adnoddau cyfalaf yn 2024-25. Mae'r cyllid cyfalaf cyfyngedig yn gyfyngiad sylweddol ar y gallu i fynd i'r afael â chostau'r ôl-groniad. Er bod y Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith yn cynnwys cynlluniau tymor byr a hwy, dyrennir cyllid cyfalaf yn flynyddol, Yn y tymor byr, mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r her hon trwy fod â phroses eglur ar gyfer blaenoriaethu'r modd y dyrennir ei adnoddau cyfalaf (**gweler paragraff 16**).

14 Fodd bynnag, mae cyllid hirdymor ar gyfer prosiectau cyfalaf yn dal i fod yn ansicr. Yn 2022, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd achos busnes rhaglen i Lywodraeth Cymru, sy'n ategu cynigion i adeiladu ysbyty gofal brys ac argyfwng newydd yn unol â'i strategaeth hirdymor, ond mae penderfyniad yn dal yn yr arfaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun 10 mlynedd cynhwysfawr (**gweler paragraff 22**) sy'n amlinellu'r proffil gwariant cyfalaf ar gyfer rhaglenni mawr. Mae'n amcanu at

[7] Mae'r amcangyfrif o gyfanswm yr ôl-groniad yn cynnwys ystadau ac amnewid dyfeisiau digidol a meddygol.

ddarparu map eglur ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf, sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithlon ac yn effeithiol.

15 Mae rolau a chyfrifoldebau ar gyfer datblygu a chyflawni'r Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith yn eglur ac yn cael eu deall yn dda. Cefnogir y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio gan dîm cynllunio cyfalaf sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am roi cymorth i gyflawni'r Cynllun, er enghraifft trwy roi cymorth i reoli prosiectau a datblygu achosion busnes. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod gan y tîm cynllunio cyfalaf ddigon o gapasiti ar hyn o bryd ond mae'n cydnabod y gallai darparu adnoddau ddod yn broblem pe bai mwy o brosiectau mawr yn cael eu cymeradwyo. Mae timau eraill, megis y rhai sy'n gyfrifol am ystadau, digidol ac offer yn chwarae rhan i adnabod, blaenoriaethu a chostio cynlluniau a gynhwysir yn y Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith. Mae'r tîm cyllid yn darparu goruchwyliaeth i sicrhau bod costiadau'n gadarn ac yn gywir, gan sicrhau bod amcanestyniadau ariannol yn realistig dros y tymor hir.

# Proses blaenoriaethu cyfalaf

16 Fe wnaethom ystyried a yw dull y Bwrdd Iechyd o adnabod a blaenoriaethu buddsoddi cyfalaf wedi'i ddiffinio ac yn cael ei ddeall yn glir. Fe wnaethom ystyried yn benodol a oes gan y Bwrdd Iechyd:

- broses eglur ar gyfer adnabod cynlluniau cyfalaf posibl;
- dull eglur o flaenoriaethu buddsoddi cyfalaf, gyda meini prawf eglur i ategu penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethu;
- dull blaenoriaethu cyfalaf sy'n ddigon ystwyth i ymateb i faterion nas rhagwelwyd yn ystod y flwyddyn; a
- rheolau eglur ynghylch y gofynion o ran achosion busnes ar gyfer prosiectau cyfalaf.

17 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd ddull sy'n eglur ac yn gwella o adnabod a blaenoriaethu ei fuddsoddiadau cyfalaf, gyda gweithdrefnau wedi'u dogfennu'n glir.**

18 Mae'r terfyn adnoddau cyfalaf, sef y swm sydd gan y Bwrdd Iechyd i fuddsoddi mewn cyfalaf, yn cynnwys dwy brif elfen: cyfalaf yn ôl disgresiwn a Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan. Gall fod cyllid arall ar gyfer cyfalaf ar gael hefyd, er enghraifft trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a oruchwylir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. O ystyried argaeledd cyfyngedig cronfeydd cyfalaf, mae'n bwysig bod gan y Bwrdd brosesau eglur i adnabod a blaenoriaethu ei adnoddau cyfalaf.

19 Mae cyfalaf yn ôl disgresiwn yn cael ei ddyrannu'n flynyddol, yn benodol i gyflawni rhwymedigaethau statudol megis iechyd a diogelwch a gofynion y cod tân, cynnal a chadw ystadau, ac amnewid offer yn amserol. Mae'r cylch cynllunio yn ôl disgresiwn yn cyd-fynd â chylch y Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu ei gynllun blynyddol/Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Mae proses y Bwrdd Iechyd o

flaenoriaethu ei gyfalaf yn ôl disgresiwn wedi'i disgrifio'n glir yn ei weithdrefn buddsoddi cyfalaf. Mae'n defnyddio cyfres o ymarferion i flaenoriaethu cynlluniau i'w cynnwys o bosibl yn ei raglen cyfalaf yn ôl disgresiwn. Mae cynlluniau cyfalaf yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu o fewn gwasanaethau unigol i ddechrau, cyn y cyflwynir cynigion i'r Grŵp Cynllunio Cyfalaf. Cyn bod y Grŵp Cynllunio Cyfalaf yn ystyried y cynigion, fe'u blaenoriaethir gan y timau sy'n gyfrifol am ystadau, digidol ac offer.

20 I roi cymorth gyda'r ymarfer blaenoriaethu terfynol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu matrics blaenoriaethu. Mae'r matrics yn ystyried tri maen prawf a phwysoliad:

- a fyddai peidio â buddsoddi'n niweidiol i barhad busnes (25%);
- y risg i ddiogelwch cleifion, staff neu'r cyhoedd (50%); ac
- effaith ac enw da (25%).

21 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi dweud bod y matrics blaenoriaethu'n dal i esblygu, mae'r meini prawf yn cyd-fynd yn dda â diben cyllid yn ôl disgresiwn. Ar hyn o bryd, ni ddefnyddir y broses i ddosbarthu'r holl arian yn llawn, gan bod y 10% cyntaf yn cael ei frigdorri ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Mae'r gweddill yn cael ei rannu yn ôl cyfrannau rhwng ystadau a gwaith statudol, digidol ac ar gyfer offer. Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn gweithio tuag at system sy'n caniatáu pwysoliad cyfartal rhwng cynigion ar gyfer ystadau, digidol ac offer, ond o ystyried lefel y costau cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni nid yw hyn yn bosibl eto.

22 Er gwaethaf ymdrech y Bwrdd Iechyd i ddatblygu proses i flaenoriaethu cynlluniau cyfalaf a gyllidir â chyfalaf yn ôl disgresiwn, mae'r cyfalaf sydd ar gael yn gyfyngedig. Yn 2024-25, cafodd 40% o'r dyraniad cyfalaf yn ôl disgresiwn ei gadw'n ôl ar gyfer prosiectau yr ymrwymwyd iddynt yn barod, ac fe gafodd 20% ei gadw'n ôl fel cyllid ar gyfer hapddigwyddiadau, gan olygu mai dim ond £2.9 miliwn oedd yn weddill ar gyfer prosiectau newydd. Golyga hyn nad oes rhyw lawer o hyblygrwydd os ceir materion nas rhagwelwyd yn ystod y flwyddyn. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi dysgu gwersi o flynyddoedd blaenorol ac wedi cynyddu ei gronfeydd wrth gefn ar gyfer hapddigwyddiadau o 10% i 20% yn 2024-25, mae angen iddo ddefnyddio dulliau eraill o hyd i liniaru risgiau. Er enghraifft, bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gau wardiau a gwneud newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau pan ganfu goncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth yn Ysbyty'r Llwyn Helyg. Mae hefyd yn ceisio lliniaru risg trwy geisio cymorth rhanbarthol, dod o hyd i gyllid arall, a gwneud defnydd gwell o dechnoleg lle y bo'n bosibl. Gall y Bwrdd Iechyd gysylltu â Llywodraeth Cymru i helpu i gefnogi heriau sy'n dod i'r amlwg hefyd.

23 Dyrennir Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar achosion busnes a gyflwynir gan gyrff iechyd. Mae'r rhain fel rheol ar gyfer buddsoddiadau mwy. Ym mis Tachwedd 2023, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru broses flaenoriaethu newydd, at ddiben bod â fframwaith cyson i wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi. Fel rhan o'r broses hon, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r holl gyrff iechyd gwblhau ymarfer blaenoriaethu, i helpu i adnabod cynlluniau yr oedd angen cymorth arnynt o Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan

dros y 10 mlynedd nesaf. Gan ddefnyddio chwe maen prawf buddsoddi wedi'u pwysoli[8] a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ddau weithdy mewnol i ffurfio rhestr fer o 26 o gynlluniau wedi'u blaenoriaethu. Caiff y rhain eu rhestru yn ei Gynllun Buddsoddi mewn Seilwaith ar gyfer 2024-27. Yn dilyn cwblhau'r ymarfer blaenoriaethu wedi'i fandadu, fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ffurflenni, gyda threfn restrol pob prosiect, i Lywodraeth Cymru i gael eu hystyried. Dywedodd y Bwrdd Iechyd, lle nad yw cynigion i Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan yn cael eu cymeradwyo neu lle ystyrir nad ydynt yn fforddiadwy, ei fod yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i drafod opsiynau eraill. Felly y mae hi gyda'r gwasanaeth patholeg rhanbarthol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ddatblygu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

24 Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn cydymffurfio â'r gofyniad mandadol i gyflwyno math o achos busnes ar gyfer cynlluniau cyfalaf dan Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan a'r holl senarios eraill pan fo'n ofynnol. Bydd prosiectau a rhaglenni cyfalaf yn dilyn proses achos busnes ailadroddol gan ddefnyddio'r dull Gwell Achosion Busnes, sy'n sicrhau arferion gorau ar gyfer cynllunio, ac y gwneir penderfyniadau cyllido effeithiol. Cyflwynir achosion busnes mewn grwpiau neu bwyllgorau perthnasol ar gyfer craffu arnynt a'u cymeradwyo.

# Llywodraethu a goruchwylio

25 Fe wnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer craffu ar ei brosesau penderfynu ynglŷn â chyfalaf, adrodd arnynt a'u monitro. Fe wnaethom ystyried yn benodol a yw'r Bwrdd Iechyd:

- yn mynd ati'n effeithiol i graffu ar benderfyniadau ynglŷn â chyfalaf a flaenoriaethir, eu monitro ac adrodd arnynt; ac
- yn defnyddio gwersi a ddysgir i wella'r modd y blaenoriaethir buddsoddi cyfalaf.

26 Canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd brosesau llywodraethu a goruchwylio cadarn i ategu ei brosesau penderfynu ynglŷn â chyfalaf a dull sefydledig o ddysgu gwersi o brosiectau cyfalaf**.

27 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu eglur i oruchwylio penderfyniadau ynglŷn â chyllid cyfalaf, craffu arnynt a'u cymeradwyo. Ar lefel y Bwrdd, y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio[9] sy'n gyfrifol am oruchwylio a chael sicrwydd ynghylch cyflawni'r rhaglenni a phrosiectau cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r holl achosion busnes cyfalaf, craffu ar gynlluniau ar gyfer defnyddio'r

[8] Cydnawsedd â Blaenoriaethau a Pholisi (25%), Effaith glinigol (20%), Gwerth am arian (16%), Cydymffurfio Statudol a Risg (13%), Tegwch a Chymuned (13%) a Manteision Ehangach a Newid Hinsawdd (13%).

[9] Sefydlwyd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ym mis Ebrill 2025, a chyn hynny'r Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol oedd yn gyfrifol am graffu ar fuddsoddi a chynllunio cyfalaf.

terfyn adnoddau cyfalaf a'r rhaglen cyfalaf yn ôl disgresiwn cyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd. Mae'r Is-bwyllgor Cyfalaf yn cefnogi'r Pwyllgor ac fe'i cadeirir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio. Mae'n goruchwylio gweithgarwch i gynllunio a chyflawni rhaglenni cyfalaf a chyfalaf-yn-ôl-disgresiwn Cymru gyfan. Mae'r Pennaeth Cynllunio Cyfalaf yn cadeirio'r Grŵp Cynllunio Cyfalaf, sy'n adrodd wrth yr is-bwyllgor ac yn gyfrifol yn benodol am ddatblygu a goruchwylio gweithgarwch i gyflawni'r rhaglen cyfalaf-yn-ôl-disgresiwn wedi'i blaenoriaethu.

28 Ar bob lefel llywodraethu, ceir adroddiadau rheolaidd ar gynllunio a chyflawni cyfalaf, sy'n hwyluso monitro a goruchwylio effeithiol ac yn ei gwneud yn bosibl rheoli risgiau. Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio'n cael Adroddiad Diweddaru cynhwysfawr ar y Rhaglen Gyfalaf a Llywodraethu Cyfalaf sy'n cynnwys diweddariad ar y terfyn adnoddau cyfalaf, a diweddariadau am brosiectau gan gynnwys unrhyw gynlluniau sy'n wynebu risg a chamau lliniaru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael achosion busnes i'w cymeradwyo neu eu cefnogi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Bwrdd fel y bo angen. Yn flynyddol, mae'n craffu ar y Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith diwygiedig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael diweddariadau rheolaidd gan yr Is-Bwyllgor Cyfalaf, sy'n cael cyfres gynhwysfawr o adroddiadau sicrwydd a dangosfyrddau i helpu i fonitro gwariant cyfalaf. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariad am y terfyn adnoddau cyfalaf, rheoli ariannol cyfalaf a'r rhaglen gyfalaf, ac adroddiad ar y prif bwyntiau o ran statws prosiectau cyfalaf sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Blynyddol. Mae'r adroddiad ar y prif bwyntiau'n darparu crynodeb o gerrig milltir allweddol, diweddariad am gynnydd prosiectau cyfalaf, gan gynnwys risgiau allweddol a materion ar gyfer sylw'r Is-Bwyllgor. Mae adroddiadau eraill yn cynnwys diweddariadau am y dangosfwrdd a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ar gynlluniau a gyllidir trwy Gynllun Cyfalaf Cymru Gyfan a diweddariadau am y rhaglen gyfalaf ranbarthol.

29 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau da i gasglu gwybodaeth am wersi allweddol a manteision a wireddwyd o brosiectau cyfalaf. Mae adroddiadau cau prosiect yn cael eu cynhyrchu ar gyfer pob cynllun, sy'n cynnwys gwerthuso ar ôl y prosiect a gwersi a ddysgwyd, pa un a yw amcanion mewn achosion busnes a manteision wedi cael eu cyflawni a pherfformiad y prosiect megis amser, cwmpas a chost. Mae'r ddogfen hefyd yn cwmpasu argymhellion archwilio ac yn amlygu unrhyw risgiau i'r prosiect y mae angen eu trosglwyddo i dimau gweithredol. Lle bu materion cyflawni penodol, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal ymarferion ar wahân sy'n rhoi sylw i wersi a ddysgwyd yn ychwanegol at yr adroddiad cau prosiect. Ar adegau, gofynnir am yr ymarferion hyn gan Lywodraeth Cymru. Felly yr oedd hi ar gyfer Uned Llawfeddygaeth Ddydd Ysbyty'r Tywysog Philip, lle prynodd y Bwrdd Iechyd ddatrysiad modiwlar i hwyluso dychweliad llawfeddygaeth ddewisol ar ôl pandemig COVID-19. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gofleidio'r cyfle hwn yn llawn ac ychwanegu gwerth at yr adroddiad trwy gynnal gweithdy ar wersi a ddysgwyd i gasglu safbwyntiau'r holl randdeiliaid allweddol. Cynhaliwyd ymarfer tebyg ar gyfer y gwaith cyfalaf i wella'r Uned Menywod a Phlant yn Ysbyty

Glangwili hefyd. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod y tîm cynllunio cyfalaf yn cadw log o wersi a ddysgwyd sy'n bwydo i mewn i gynllunio a chyflawni cyfalaf yn y dyfodol.

# Argymhellion

30 Rydym wedi nodi argymhelliad sy'n codi o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhelliad ei grynhoi yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhelliad** |
| --- |
| **Gwella'r System Rheoli Asedau**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl grwpiau gofal clinigol yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer prynu offer meddygol ac anfeddygol a sicrhau, pan fo'n briodol, eu bod yn ymgysylltu â'r tîm peirianneg glinigol, fel bod y rhestr offer meddygol yn cael ei diweddaru i atal bylchau mewn gwybodaeth (**gweler paragraff 10**) |

# Atodiad 1

## Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r meini prawf archwilio a ddefnyddiom ni i gyflawni'r gwaith.

**Arddangosyn 2: meini prawf archwilio**

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| **A yw trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer blaenoriaethu ei fuddsoddiadau cyfalaf yn cryfhau ei allu i gyflawni ei amcanion strategol dros y tymor byr, canolig a hwy?** | |
| **A oes gan y Bwrdd Iechyd ddull strategol wedi'i ddiffinio'n glir sy'n rhoi cymorth i gyflawni ei raglen gyfalaf wedi'i blaenoriaethu?** | |
| A oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun buddsoddi cyfalaf datblygedig, y darperir adnoddau digonol ar ei gyfer, i reoli buddsoddiad yn ei ystâd ac offer gwerth-uchel? | • Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun buddsoddi cyfalaf cyfoes a chymeradwy, sy'n cwmpasu ystadau ac offer gwerth uchel.<br>• Mae'r cynllun buddsoddi cyfalaf yn cael ei gyllido dros y tymor byr, canolig a hir.<br>• Mae'r cynllun buddsoddi cyfalaf yn seiliedig ar ddealltwriaeth eglur am gyflwr yr ystadau ac offer, yr angen a'r galw amdanynt ac arloesi technolegol yn y cyswllt hwnnw dros y tymor byr, canolig a hwy.<br>• Mae'r cynllun buddsoddi cyfalaf yn cyd-fynd â strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol, yn cynnwys ffocws strategol, yn flaengar ac o gymorth i drawsnewid gwasanaethau ac fe'i datblygir trwy ymgysylltu priodol â rhanddeiliaid a dinasyddion.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried trefniadau gweithio rhanbarthol/cydgynhyrchu gyda chyrff eraill y GIG wrth ddatblygu ei gynllun buddsoddi cyfalaf. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| A oes gan y Bwrdd Iechyd y trefniadau angenrheidiol i roi cymorth i gyflawni'r cynllun buddsoddi cyfalaf? | • Ategir y cynllun gan gynlluniau rheoli asedau cadarn, sy'n darparu fframwaith ar gyfer cyflawni'r rhaglen gyfalaf.<br>• Mae rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â datblygu, cyflawni a chraffu ar y cynllun buddsoddi cyfalaf yn eglur ac yn cael eu deall yn dda.<br>• Mae gan y Bwrdd Iechyd y capasiti a'r gallu i ddatblygu a chyflawni ei gynllun buddsoddi cyfalaf a, lle ceir bylchau, ceir cynlluniau datblygedig i ymdrin â'r rhain. |
| A yw dull y Bwrdd Iechyd o adnabod a blaenoriaethu buddsoddi cyfalaf wedi'i ddiffinio ac yn cael ei ddeall yn glir? | • Ceir proses eglur ar gyfer adnabod cynlluniau cyfalaf posibl o fewn y sefydliad, sy'n gyson ar draws y sefydliad.<br>• Ceir dull eglur o flaenoriaethu buddsoddi cyfalaf (cynigion ar gyfer cronfeydd yn ôl disgresiwn a chynigion buddsoddi), gyda meini prawf eglur i ategu penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethu.<br>• Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi cyfalaf, mae'r sefydliad yn ystyried yr effaith ar sefydliadau partner ac effaith buddsoddi neu ddadfuddsoddi mewn rhaglenni a phrosiectau unigol.<br>• Mae'r dull blaenoriaethu cyfalaf yn ddigon ystwyth i ymateb i faterion nas rhagwelwyd yn ystod y flwyddyn.<br>• Ceir rheolau eglur ynghylch y gofynion o ran achosion busnes yn seiliedig ar werth cynlluniau cyfalaf arfaethedig. |
| **A oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i graffu ar ei brosesau penderfynu ynglŷn â chyfalaf, adrodd arnynt a'u monitro?** | |
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n effeithiol i graffu ar benderfyniadau ynglŷn â | • Ceir trefniadau llywodraethu eglur i oruchwylio cyllid cyfalaf, craffu arno a'i gymeradwyo, gan gynnwys ar lefel y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
| --- | --- |
| chyfalaf a flaenoriaethir, eu monitro ac adrodd arnynt? | • Ceir adroddiadau rheolaidd cadarn ar benderfyniadau cyfalaf sy’n hwyluso monitro a goruchwyliaeth effeithiol ac yn ei gwneud yn bosibl i reolwyr gymryd camau cywirol cynnar.<br>• Ceir tystiolaeth gadarn sy’n tanategu pob penderfyniad cyfalaf ac yn hwyluso craffu effeithiol.<br>• Caiff llwyddiant ar gyfer penderfyniadau cyfalaf ei bennu gan fetrigau perfformiad allweddol. |
| A yw’r Bwrdd Iechyd yn defnyddio gwersi i wella’r modd y blaenoriaethir ei fuddsoddiadau cyfalaf? | • Mae’r Bwrdd Iechyd yn ymateb yn rhagweithiol i argymhellion gan reoleiddwyr allanol ynghylch ei raglen gyfalaf a rheoli ei asedau.<br>• Mae’r Bwrdd Iechyd yn mynd ati’n rhagweithiol i ddefnyddio gwersi ac arfer gorau allanol i helpu i wella ei ddull o ran cynllunio a rheoli cyfalaf.<br>• Ceir trefniadau eglur ar draws y Bwrdd Iechyd i rannu gwersi o raglenni a phrosesau cyfalaf.<br>• Mae’r Bwrdd Iechyd yn monitro ac yn dysgu o berfformiad yn y gorffennol. |

# Atodiad 2

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiom ni i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn seiliedig ar yr wybodaeth a gafwyd trwy'r dulliau isod.

**Arddangosyn 3: dulliau archwilio**

| **Elfen o'r dulliau archwilio** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Dogfennau | Fe adolygom ni ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith<br>• Dogfennau sy'n nodi'r broses blaenoriaethu cyfalaf, gan gynnwys templedi achosion busnes mewnol<br>• Papurau ar y gwaith blaenoriaethu cyfalaf a wnaed gan y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i raglen flaenoriaethu ddiweddaredig Llywodraeth Cymru<br>• Dogfennau sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â chynllunio cyfalaf.<br>• Cais cyfalaf i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r dull blaenoriaethu newydd (Mawrth 2024) ac unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru<br>• Cylch Gorchwyl yr Is-Bwyllgor Cyfalaf a grwpiau cynllunio cyfalaf perthnasol eraill<br>• Cofnodion a chynlluniau gweithredu'r Grŵp Cynllunio Cyfalaf<br>• Papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar Gyfalaf (Gan gynnwys yr Is-Bwyllgor Cyfalaf) – sy'n cynnwys y Terfyn Adnoddau Cyfalaf a'r Rhaglen Rheoli Ariannol Cyfalaf/Cyfalaf Yn Ôl Disgresiwn ar gyfer 2023-24 a 2024-25 |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br>• Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Rheoli Cyfalaf<br>• Cyfarwyddwr Digidol<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio Strategol<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau<br>• Pennaeth Cynllunio Cyfalaf<br>• Uwch Bartner Busnes Cyllid<br>• Pennaeth Perfformiad Eiddo<br>• Aelod Annibynnol ar yr Is-Bwyllgor Cyfalaf |

| Elfen o’r dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | • Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol<br>• Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Cyfalaf |
| Arsylwadau | • Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol<br>• Is-Bwyllgor Cyfalaf |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr

Mae **Arddangosyn 4** isod yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i’n hargymhellion.

**Arddangosyn 4: ymateb y Bwrdd Iechyd i’n hargymhellion archwilio**

| Argymhelliad | | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl grwpiau gofal clinigol yn ymwybodol o’r weithdrefn ar gyfer prynu offer meddygol ac anfeddygol a sicrhau, pan fo’n briodol, eu bod yn ymgysylltu â’r tîm peirianneg glinigol, fel bod y rhestr offer meddygol yn cael ei diweddaru i atal bylchau mewn gwybodaeth (**gweler paragraff 10**). | Bydd y BIP yn sicrhau bod Uwch Arweinwyr yn y Grwpiau Gofal Clinigol i gyd yn cael eu gwneud yn ymwybodol o’r weithdrefn ar gyfer prynu offer meddygol ac anfeddygol a’r angen i ymgysylltu â’r tîm peirianneg glinigol lle y bo’n briodol. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy gyflwyniad i'r Uwch Dîm Arwain Gweithrediadau a thrwy gylchredeg hwn a’r weithdrefn i Uwch Arweinwyr y Grwpiau Gofal Clinigol. | Tachwedd 2025 | Gareth Rees<br><br>Sarah Welsby<br><br>Eldeg Rosser |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.